

Cofion

Parhawn i gofio yn ein gweddiâu heddiw am Gwyneth Williams (Llanfair) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, ac Airys Jones (Peniel) sy'n gobeithio cael dod adref o Ysbyty Glan Clwyd yn y dyddiau nesaf hyn. Cyflwynwn y ddwy, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd, i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo roi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Anfonwn ein cofion hefyd at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Miss W J Roberts a Mrs Kate Owen, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal arbennig y maent yn ei dderbyn yno.

CDd – 'NESÁU AT IESU'

Mae'r CDd – 'NESÁU AT IESU' (a baratowyd gan Adran y Chwiorydd) ar gael yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n dymuno ei dderbyn. Mae'n gasgliad o emynau cynulleidfaol, darlleniadau o'r Beibl a gweddiâu, ac mae'r cynnwys wedi ei rannu i saith adran. Dymuniad y Chwiorydd yw gweld y CDd yn cael ei ddefnyddio yn addoliad yr eglwys, yn ein cartrefi, mewn ysbytai a chartrefi gofal, ac yn rhan o'n myfyrdod personol. Os hoffech gael copi, plis gadewch i Mair wybod erbyn Hydref 15fed.

I ddod

- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH CAPEL HENLLAN** dydd Llun, Hydref 9fed am 2.15 gyda phlant Ysgol Henllan a'r Parch. Carwyn Siddall. Ef hefyd fydd yn pregethu yng ngwasanaeth yr hwyr am 7.00. Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Llifogydd De Asia trwy law Cymorth Cristnogol. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SARON** am 7.00 nos Iau, Hydref 12fed gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **PANED A SGWRS** yn Festri Llansannan pwn dydd Mawrth, Hydref 17eg o 1.30-3.30. Croeso i bawb.
- **SWPER DIOLCHGARWCH** yn Neuadd Llanefydd nos Fercher, Hydref 18fed am 7.00 yng nghwmni Dr Owain Edwards, gyda'r casgliad tuag at Apêl Corwynt Cariad.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** nos Iau Hydref 19eg am 7.00, gyda'r Parch. John Owen, Rhuthun yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL Y GROES** am 7.00 nos Wener, Hydref 20fed gyda'r Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu. Croeso i bawb.
- **EISTEDDFOD Y PWYNTIAU PRION, PENIEL A SARON** nos Wener, Hydref 20fed am 5.30 yn Ysgol Pant Pastynog. Gwaith llên, barddoniaeth ac arlunio i fod yng Nghapel Prion **erbyn 7.30 nos Sul, Hydref 1af.**



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Hydref 2017

Darlleniad Wythnos Nesaf

Hebraid 4:12-13

(BCND tud.242 / BCN tud.222)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon arbennig ym Mro Aled heddiw i ddathlu 450 o flynyddoedd ers rhyddhau'r Testament Newydd yn y Gymraeg. Ar Hydref 7fed, 1567 y cyhoeddwyd y Testament Newydd Cymraeg cyntaf, a William Salesbury o Gae Du, Llansannan oedd yn bennaf gyfrifol am yr orchest hon ynghyd â chyfieithu rhannau eraill o'r Beibl o'r ieithoedd gwreiddiol i'r Gymraeg ar gyfer y Llyfr Gweddi Cyffredin a gyhoeddwyd yr un flwyddyn. Yn ystod yr oedfaon heddiw byddwn yn diolch i Dduw am gael derbyn y Beibl yn ein hiaith ein hunain, ac yn llawenhau fod hynny wedi golygu bod cenedlaethau o Gymry Cymraeg wedi cael clywed y newyddion gwych am Iesu Grist.

Ond nid edrych yn ôl ar y gorffennol yn unig y byddwn yn ei wneud (cawn fwy o gyfle i wneud hynny nos Fercher am 7.30 trwy gyfrwng darlith ar William Salesbury gan Gwynn Matthews.) Cofiw'n fod ein Harglwydd Iesu Grist yr un ddoe, heddiw ac am byth (Hebraid 13:8) a bod galwad Iesu ar i bobl ddod i'w ddilyn a'i adnabod yr un mor berthnasol heddiw ag erioed. Dywedodd yr Apostol Paul nad oedd ganddo gywilydd o'r Efengyl oherwydd mai 'Dyma'r ffordd rymus mae Duw'n gweithio i achub pawb sy'n credu – yr Iddew a phawb arall hefyd. Dyma'r newyddion da sy'n dangos i ni sut allwn ni gael perthynas iawn â Duw.' (Rhufeiniaid 1:16-17 Beibl.net) Ac oherwydd ein bod ninnau ym Mro Aled yn 2017 yn argyhoeddiedig mai trwy ffydd yn Iesu Grist y mae pobl yn dod i berthynas iawn â Duw, fel rhan o'n mawl byddwn yn gweddiâu ar i Dduw barhau i weithio trwy ei Ysbryd Glân arnom fel Cymry fel bod yr Efengyl yn dwyn ffrwyth a llawer mwy yn dod i glywed, ac o glywed yn dod i gredu yn Iesu Grist fel eu Gwarddwr. I gyd-fynd â'n dyhead i weld gwaith Duw'n llwyddo yng Nghymru heddiw rydym wrth ein boddau yn cael croesawu Arfon Jones o Gaerdydd atom i'n dwy oedfa. Er bod ei wreiddiau yn Nyffryn Clwyd, mae Arfon wedi byw yn y brifddinas ers blynyddoedd bellach ac wedi cyfrannu'n helaeth at Gristnogaeth yn y Gymru gyfoes trwy gyfieithu nifer fawr o ganeuon mawl ac wrth gwrs y campwaith o gynhyrchu cyfieithiad Cymraeg cyfoes o'r Beibl trwy Beibl.net. Diolchwn i Dduw am y doniau a'r dyfalbarhad a roddodd i bobl fel William Salesbury, William Morgan, Arfon Jones ac eraill i sicrhau fod Gair Duw ar gael i bobl mewn iaith ddealladwy, a gweddiâu yn bydd y broses honno'n mynd rhagddi i bobl ym mhob cornel o'r byd sydd eto i ddarllen y Beibl yn eu mamiaith.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 1^{af}

SUL ARBENNIG I'R FRO

IDDATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R

TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG

yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd

fu'n bennaf gyfrifol am gyfieithu beibl.net.

Yn y bore, bydd oedfa i'r teulu cyfan yn Llansannan **am 10.30**, ac yna byddwn yn mynd i'r Ganolfan i gael mochyn wedi ei rostio a phwddin, a bydd chwaraeon i'r plant i ddilyn.

Ar ôl cinio, bydd cyfle i'r rhai sy'n dymuno i fynd draw i Dŷ Mawr Wybrnant (ger Penmachno) lle ganwyd yr Esgob William Morgan, sef cyfieithydd cyntaf y Beibl cyfan i'r Gymraeg.

I gloi dathliadau'r dydd, bydd oedfa'r hwyr yn Llansannan **am 6.00**.

Pris y cinio: £4 i oedolion a £2 i blant ysgol gynradd.

Pris mynediad i Dŷ Mawr Wybrnant: £2.50 i oedolion a £1 i blant.

Mawrth – 3^{ydd} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Mercher – 4^{ydd} ➤ **Darlith: Dathlu 450 mlynedd ers cyhoeddi Y Testament Newydd Cymraeg gan William Salesbury** – Fel rhan o'r dathliadau, cynhelir darlith wedi ei threfnu gan Gymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7.30. Traddodir y ddarlith gan y Dr E. Gwynn Mathews. Croeso cynnes i bawb.

Iau – 5^{ed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** o 3.15-4.30.
➤ **Cyfarfod i drafod beth fydd y cam nesaf i'r Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.

Gwener – 6^{ed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Sul nesaf – 8^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.

Henllan a Groes

Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion am 2.00. Bydd Gwasanaeth Thema yn Henllan am 10.30 a chinio cynnil ar ôl y gwasanaeth i godi arian tuag at Apêl Corwynt Cariad.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

Mercher – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch i'r Teulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Mercher – 4^{ydd} ➤ Bydd y Gymdeithas yn ail-ddechrau yn Neuadd Goffa Llanfair Talhaiarn am 7.30 pryd y bydd Tecwyn Ifan yn dod i ddiddori.

Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain gwasanaeth teuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 ac yn llongyfarch Mrs Beti Jones, Mr Robert Henry Roberts a Mrs Mair Williams a dderbyniodd y Fedal Gee ddydd Iau. Bydd cyfle am de a sgwrs wedyn. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r Ieuenctid yng Nghapel Saron am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol 'Corwynt Cariad' i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Yna, bydd rhai o'r aelodau yn mynd yn ystod y prynhawn i'r Hen Ficerdy i gynnal gwasanaeth.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.